# Canllawiau gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr 2025

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Hywel Iorwerth

Sefydliad (os yn berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

E-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad: hywel.iorwerth@cyg-wlc.cymru

Dylid cyflwyno ymatebion erbyn 3 Medi 2025 i:

Ymgynghoriad Teithio gan Ddysgwyr
Yr Is-adran Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig
Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad hwn:

E-bost: bus@llyw.cymru (pwnc: Ymgynghoriad Teithio gan Ddysgwyr)

**Cwestiwn 1** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau wedi'u diweddaru yn cyd-fynd â'r datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014 ac yn ymhelaethu arnynt?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Sylwadau:

Rydym yn croesawu’n fawr fod y canllawiau yn cael eu diweddaru. Mae’r canllawiau ar Adran 10 (hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg) yn llawer cryfach yn y fersiwn diwygiedig, ac mae’r canllawiau bellach yn adlewyrchu datblygiadau deddfwriaethol pwysig er enghraifft Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn ddiweddar iawn mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 wedi derbyn cydsyniad brenhinol, a lle bo’n berthnasol dylai’r canllawiau gyfeirio at y dyletswyddau sy’n deillio o’r ddeddf hon yn ogystal.

**Cwestiwn 2** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn rhoi eglurder ar ddarpariaeth drafnidiaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Sylwadau:

**Cwestiwn 3** – A ydych chi’n cytuno bod y canllawiau ar Adran 10 (hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi'u cryfhau?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Sylwadau:

Mae’r canllawiau diwygiedig yn llawer cryfach o safbwynt y ddyletswydd sydd ar weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i hybu mynediad at addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym ambell sylw isod o ran sut gellid cryfhau rhai agweddau ymhellach:

**Yr ysgol addas agosaf (paragraffau 71-75)**

Mae paragraff 73 (ysgol addas agosaf) y canllaw yn nodi nad yw’r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant am ddim i fath penodol o ddarpariaeth iaith a ffafrir gan rieni neu ddysgwyr. Er ein bod yn derbyn bod hyn yn

ffeithiol gywir o un safbwynt, mae’r canllaw hefyd yn cyfeirio mewn sawl lle at y ddyletswydd gyfreithiol sydd ar awdurdodau lleol i hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae’n anodd gweld sut fyddai peidio â darparu cludiant i ysgol cyfrwng Cymraeg yn gyson â’r ddyletswydd i hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Credwn y byddai felly’n fuddiol i’r paragraff hwn (neu'r paragraff blaenorol, paragraff 72) nodi y dylai awdurdodau lleol ystyried y **ddyletswydd statudol** sydd arnynt i hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg wrth ystyried beth yw’r ysgol addas agosaf. Mae paragraff 88 o’r canllaw yn fwy eglur yn y cyd-destun hwn.

Rydym yn croesawu bod y bocs ‘arferion gorau’ o dan baragraff 75 yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol ystyried dyheadau rhieni a dysgwyr i ddewis ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae cyfeirio at hyn fel ‘arfer gorau’ ychydig yn gamarweiniol o ystyried bod hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn ofyniad statudol dan y Mesur. Credwn y dylid nodi mai dyma yw **disgwyliad** Llywodraeth Cymru.

**Cludiant i ddysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol (paragraff 112-115)**

Rydym yn derbyn bod adrannau eraill y canllawiau yn cyfeirio at bwysigrwydd ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth ddarparu cludiant ar sail disgresiwn. Er hyn, credwn y byddai’r canllawiau yn gryfach pe bai’r adran hwn yn cyfeirio yn benodol at yr angen i awdurdodau lleol fod yn ystyried hygyrchedd addysg ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae diffyg darpariaeth cludiant i addysg ôl-16 yn aml yn golygu bod addysg cyfrwng Cymraeg yn llawer llai hygyrch na darpariaeth cyfrwng Saesneg.

**Hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg (paragraffau 121-129)**

Rydym yn croesawu’n fawr fod yr adran hon yn cyfeirio yn benodol at ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a bod angen i awdurdodau lleol ystyried y dyletswyddau pellach sydd wedi’u gosod arnynt dan gyfundrefn safonau’r Gymraeg ochr yn ochr â’r dyletswyddau sydd arnynt o dan adran 10 y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Credwn y byddai’n ddefnyddiol cyfeirio at ddogfennau cyngor ac adnoddau’r Comisiynydd sy’n darparu arweiniad i gyrff cyhoeddus ar y safonau llunio polisi, gan gynnwys sut y dylid mynd ati i roi ystyriaeth gydwybodol i effaith penderfyniadau ar y Gymraeg. Mae gan y Comisiynydd dudalen gwe benodol sy’n cynnwys amryw o adnoddau, gan gynnwys Cod Ymarfer, canllaw a seminarau ar ddogfennau ymgynghori ac asesu effaith. Mae’r Comisiynydd wrthi yn paratoi canllaw a thempled penodol i awdurdodau lleol ynghylch asesu effaith penderfyniadau polisi yn ymwneud ag addysg. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi yn fuan.

| |
|---|
| Er bod paragraffau 121 a 122 yn glir a chadarn, byddai'n fanteisiol rhestru rhai enghreifftiau o sut dylai awdurdodau lleol hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg wrth gyflawni swyddogaethau dan y Mesur. E.e.<br>• Wrth benderfynu ar ystyr ysgol addas agosaf<br>• Wrth benderfynu ar ddarparu cludiant i addysg ôl-16 ar sail disgresiwn<br>• Wrth benderfynu ar ddarparu cludiant i addysg feithrin ar sail disgresiwn<br>• Wrth benderfynu ar drothwyon pellter darpariaeth cludiant am ddim<br>• Wrth wneud trefniadau cludiant i ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg<br>• Wrth wneud trefniadau cludiant eraill, er enghraifft, wrth wneud trefniadau cludiant i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg lle bydd rhieni yn talu<br>Fe ddylai'r adran yma gyfeirio at Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn ogystal. |

**Cwestiwn 4** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar Adran 11 (hybu dulliau teithio cynaliadwy) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi'u cryfhau?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

| |
|---|
| Sylwadau: |

**Cwestiwn 5** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau'n adlewyrchu rhai o'r arferion da sydd wedi'u nodi ledled Cymru i annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid cyflawni?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

| |
|---|
| Sylwadau:<br>O safbwynt y Gymraeg yn benodol credwn fod cyfle i gynnwys rhai enghreifftiau o sut mae awdurdodau lleol wedi mynd ati i hybu mynediad at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg drwy drefniadau cludiant. Er enghraifft gellid cyfeirio at:<br>• Enghreifftiau o lle mae awdurdodau lleol yn cynnig cludiant ar sail disgresiwn i ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg<br>• Enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol yn lleihau trothwyon pellter cludiant am ddim i addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn aml yn anoddach ac yn fwy costus na mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg |

- Enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol yn cydweithio er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cludiant am ddim i ysgolion mewn awdurdodau lleol cyfagos
- Enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn codi ffi gonsesiynol am hynny

**Cwestiwn 6** – A ydych chi'n cytuno y bydd cynnwys canllaw cyffredinol ar yr amser teithio hiraf yn helpu i gynyddu cysondeb ar draws awdurdodau lleol?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Sylwadau:

**Cwestiwn 7** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau wedi'u cryfhau i ymgorffori 4 egwyddor gyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

Sylwadau:

Mae'r canllawiau diwygiedig yn ymgorffori'n well egwyddorion cyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Er hynny, nid yw'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 na'r canllawiau yn sicrhau tegwch llawn i'r plant a'r teuluoedd hynny sy'n dymuno mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. I fwyafrif poblogaeth Cymru, mae mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau yn ddewis anoddach a mwy costus o gymharu ag addysg cyfrwng Saesneg. Fel rydym yn ei amlinellu yn ein hymateb i gwestiwn 13, er bod y canllawiau diwygiedig yn welliant sylweddol nid ydynt yn gwneud yn iawn am y ffaith bod trefniadau cludiant yn parhau i olygu bod dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn anoddach a llai hygyrch i nifer o rieni a theuluoedd ar hyd a lled Cymru.

**Cwestiwn 8** – A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 1 o'r canllawiau (Canllawiau Gweithredol)?

Sylwadau:

Mae paragraff 35 y canllaw yn cyfeirio at rai ffactorau y dylai awdurdodau lleol eu hystyried wrth asesu anghenion teithio dysgwyr. Rydym yn croesawu'r ffaith bod darpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn un o'r ffactorau hyn. Credwn fodd bynnag, y dylid cyfeirio yn benodol at ddaearyddiaeth y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Hynny yw, mae'n bosib mewn sawl ardal yng Nghymru bod llawer llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bodoli, ac felly ar gyfartaledd bod mynychu

darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn llawer anoddach. Dylid annog awdurdodau lleol i sicrhau trefniadau cludiant sy'n cynnig cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr ddewis a mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn 9** – A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 2 (Asesu 'llwybr sydd ar gael' i'r ysgol)?

Sylwadau:

**Cwestiwn 10** – Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 3 (Rheoliadau Gwybodaeth Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009)?

Sylwadau:

**Cwestiwn 11** – A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 4 (Diogelwch ar gludiant i ddysgwyr)?

Sylwadau:

**Cwestiwn 12** – A ydych chi'n cytuno bod y diweddariad i'r canllawiau yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

Sylwadau:

**Cwestiwn 13** – Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y canllawiau ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau positif?
Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Sylwadau:

Rydym o'r farn bod y canllawiau diwygiedig yn welliant sylweddol ar y canllawiau presennol, ac yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Er hynny, mae'n bwysig nodi bod dylanwad y canllawiau yn gyfyngedig o ystyried diffygion mwy sylfaenol y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac effaith cyfyngiadau cyllidebol ar allu awdurdodau lleol i ddarparu cludiant addas a teg i addysg cyfrwng Cymraeg.

Er gwaethaf y canllawiau diwygiedig, rydym felly yn pryderu y bydd trefniadau cludiant awdurdodau lleol yn parhau i olygu bod dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn ddewis anoddach a mwy costus i nifer o deuluoedd. Rydym hefyd yn pryderu nad yw polisi cludiant Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn adlewyrchu ac yn cefnogi'n llawn weledigaeth Deddf y Gymraeg ac Addysg 2025.

Nid diwygio'r canllawiau yw'r ateb gwirioneddol i ddatrys y problemau ehangach a mwy sylfaenol hyn. Yn hytrach, mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu a gweithredu gweledigaeth o'r newydd ar gyfer cludiant i addysg, gan gynnwys sicrhau cyllideb ddigonol i alluogi awdurdodau lleol weithredu'n addas er mwyn hwyluso mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn 14** – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r canllawiau er mwyn:

- cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sylwadau:

**Cwestiwn 15** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, gallwch wneud hynny yma:

Sylwadau:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐